BRITISH COUNCIL

UKaid
from the British people

CONNECTING CLASSROOMS

Dod i'ch adnabod

www.britishcouncil.org/connectingclassrooms

DOD I'CH ADNABOD

Her 1

Mae'r her gyflwyniadol hon ar gyfer pob ysgol sy'n cymryd rhan yn y prosiect. Mae wedi'i chynllunio i'ch helpu chi i gyflwyno eich hunain i'ch ysgol bartner, i ddod i adnabod eich gilydd, ac i ddatblygu dealltwriaeth o'r nodweddion tebyg a gwahanol rhwng eich ysgolion a'ch ardaloedd lleol.

Eich tasg chi yw cyfleu sut beth yw bywyd bob dydd ac addysgu a dysgu yn eich ysgol chi. Dylech ddisgrifio'r prosiectau rydych chi wedi gweithio arnyn nhw a sut rydych chi'n defnyddio technoleg gyfathrebu yn eich ysgol. Anogwch eich disgyblion i fod yn greadigol ac yn arloesol, ac i arddangos pam fod technoleg yn bwysig iddyn nhw.

Fel rhan o'r her hon, gallai eich disgyblion greu sleidiau, bwrdd bwletin Padlet, ffilm fer neu ddogfennau ysgrifenedig gyda lluniau a'u rhannu nhw gyda'ch partner.

Gallech gynnwys ffotograffau o'r olygfa o ffenest eich ystafell ddosbarth gyda disgrifiadau byr, neu gasglu a thynnu lluniau o ddeg eitem wahanol sy'n cyfleu nodweddion eich ysgol, eich cymuned leol, eich gwlad a'ch diwylliant.

Cyfnewidiodd disgyblion Ysgol Gynradd Lockerbie yn yr Alban a'u hysgol bartner Al Shurooq ym Methlehem ffotograffau o bob math o wrthrychau a oedd yn bwysig iddyn nhw, wrth ddysgu am ddiwylliannau ac ardaloedd lleol ei gilydd. Roedden nhw'n cynnwys lluniau o faneri'r Alban a Phalesteina, copïau o gerddi gan y bardd Robert Burns, keffiyeh Balestenaidd, lluniau o olew olewydd – sef cnwd pwysig yn nhiriogaethau Palesteina – a haggis, bwyd cenedlaethol yr Alban!

Aeth partneriaeth arall rhwng ysgolion yng ngwledydd Prydain a'r Aifft ati i gymharu golygfeydd o ffenestri eu hystafelloedd dosbarth, cyn edrych ar fapiau o'r ddwy dref a defnyddio'r rhain fel sail i waith celf am eu hardal leol.

Pan fyddwch chi wedi cwblhau'r her ac wedi rhannu a thrafod y canlyniadau gyda'ch ysgol bartner, rhannwch grynodeb o'ch cywaith ar Twitter gan ddefnyddio'r hashnod **#ConnectingClassrooms**. Gallwch rannu testun, lluniau, neu'r ddau!

Amcanion dysgu: Rhannu gwybodaeth ar lwyfannau digidol am eich ysgol a'ch cymuned.
Sgiliau craidd: Meddwl yn greadigol a llythrennedd digidol.
Pynciau: Cymraeg, Saesneg, celf a dylunio, technoleg gwybodaeth.



Mapiau o drefi yng ngwledydd Prydain a'r Aifft

CONNECTING CLASSROOMS

Mae Connecting Classrooms yn cynnig ystod o adnoddau am ddim i'r ystafell ddosbarth y gellir eu llwytho i lawr, sydd ar gael i athrawon ledled y byd. Mae'r adnoddau hyn, sy'n seiliedig ar Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig, wedi'u cynllunio i addasu i unrhyw gwricwlwm. Maen nhw'n cynnig syniadau creadigol a diddorol i ddod â gwybodaeth a sgiliau craidd yn fyw yn y dosbarth, ac i ysbrydoli disgyblion i weithredu ar faterion byd-eang. Mae gwybodaeth am ein hadnoddau dysgu byd-eang sydd wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â phynciau sy'n bwysig i lywodraethau o gwmpas y byd yma: https://connecting-classrooms.britishcouncil.org/resources/global-learning-resources

Mae Connecting Classrooms yn cynnig datblygiad proffesiynol ar-lein am ddim ar gyfer sgiliau craidd a chydweithio rhyngwladol, gan helpu athrawon ac arweinwyr ysgolion i baratoi pobl ifanc ar gyfer bywyd a gwaith mewn economi fyd-eang. Mae'r rhaglen hefyd yn cefnogi partneriaethau rhwng ysgolion ledled y byd gydag ysgolion yng ngwledydd Prydain i rannu gwybodaeth, sgiliau a phrofiad gydag athrawon eraill. Mae rhagor o fanylion ynghylch sut i ddod o hyd i ysgol bartner ar gael yma: https://connecting-classrooms.britishcouncil.org/partner-with-schools/find-partner

© British Council [2020]. Cedwir pob hawl.

Mae'r cyhoeddiad hwn at ddefnydd astudio preifat neu yn yr ystafell ddosbarth yn unig. Os byddwch yn dymuno ailgynhyrchu, sganio, trosglwyddo neu ddefnyddio'r cyhoeddiad hwn neu ran ohono at ddiben arall, cysylltwch â'r British Council i gael caniatâd ysgrifenedig.